**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 7fed Gorffennaf 2021 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs. J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, B. Mellor, A.J. Rutherford a Mrs. M. Walker.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd T. Thomas (sylwedydd)
Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**9. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Miss C. Williams.

**10. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

**Nodyn 1:** Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar wedi datgan argyfwng yr hinsawdd yn ffurfiol ac felly byddent yn dymuno bod camau'n cael eu cymryd nawr gan ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio i sicrhau bod holl geisiadau mwy ar gyfer datblygiad yn gwneud y defnydd mwyaf o dechnolegau presennol i leihau'r effaith ar yr hinsawdd.

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| i. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 26 Ffordd Wellington, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2021/0532<br><br>**DISGRIFIAD**: Dymchwel estyniad dau lawr presennol, adeiladu estyniad un llawr. Newid drychiadau, gan gynnwys insiwleiddio mewnol wal, ailwampio mewnol a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISWYR:** Mr. Mark Dixon, Cyngor Sir Ddinbych |

| | |
|---|---|
| | ***PENDERFYNIAD****: Dim ymateb gan fod gan y Cyngor Tref gysylltiad gyda'r cais hwn.* |

**11. YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS**
**GOSODIAD ARFAETHEDIG CYFATHREBU 5G AR GYFER H3G UK YN GREENFIELD PLACE, Y RHYL**

***PENDERFYNWYD***

- *bod Clerc y Dref yn ymateb gan fynegi pryder, er yn derbyn manteision y mast i'r gymuned leol, oherwydd ei uchder a'i leoliad yn y brif fynedfa i'r dref, ystyrir ei fod yn annerbyniol ac awgrymu y dylid ei leoli mewn lleoliad llai ymwthiol ar y safle yn cyffinio cefn siop ddisgownt Poundstretcher a fyddai'n ei guddio o ffordd ddynesu Vale Road.*

- *Gofyn i'r Adran Gynllunio ddarparu manylion unrhyw gronfa manteision cymunedol sy'n deillio o osod y mast.*

***PEWNDERFYNWYD YMHELLACH*** gofyn i Adran Gynllunio'r Cyngor Sir archwilio cyflwr cyffredinol Greenfield Place o ran tir blêr a chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod perchennog y safle yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a chael gwared o chwyn sydd wedi gordyfu ac ati.

**12. CYNLLUN GWARCHOD Y GLANNAU CANOL PRESTATYN**

***PENDERFYNWYD*** *nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cynllun fel yr amlinellwyd.*

**13. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad**:** **…………………….........**